Diweddariadaur wythnos o WCVA

1 Gorffennaf 2019

Helo, a chroeso i'r cylchlythyr wythnos yma.

Bu cannoedd o fudiadau gwirfoddol ledled Cymru wrthi'n dathlu Wythnos Gwirfoddolwyr, 1-7 Mehefin, eleni. Pwrpas yr wythnos yw dweud diolch i'r rheini sy'n rhoi o'u hamser yn rhad ac am ddim i gefnogi eu cymunedau lleol. Aeth staff WCVA i ambell i ddathliad yng Nghymru i weld beth oedd gennych ymlaen.

Heddiw mae WCVA wedi lansio adroddiad newydd ynglŷn â Chyllid Cynaliadwy i'r Trydydd Sector. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r angen i feddwl yn greadigol ynghylch cyllid yng Nghymru, ac yn awgrymu camau ymarferol i'w cymryd i dyfu incwm. Darllenwch flog ein Rheolwr Cyllid Cynaliadwy Dewi Smith i gael crynodeb o'r prif bwyntiau.

Diolch am ddarllen, fe welwn ni chi eto wythnos nesaf.

Beth yw'r rhwystrau i gynaliadwyedd ariannol?

Yn y blog hwn, mae Dewi Smith Rheolwr Cyllid Cynaliadwy WCVA, yn amlinellu'r materion a godwyd yn ein trafodaeth o amgylch y bwrdd ym mis Tachwedd y llynedd – ynghyd ag atebion ymarferol.

Cyllid diweddaraf

Ymddiriedolaeth Tai'r Crynwyr
Gwahoddir prosiectau tai elusennol, lleol, bach sy'n darparu cartrefi go iawn i bobl o bob oed ac sydd ag anghenion amrywiol i ymgeisio am fenthyciadau a grantiau.

Cronfa Gymunedol Leol y Co-op
Mae Cronfa Gymunedol Leol y Co-op yn cefnogi prosiectau sy'n gwneud gwahaniaeth mewn cymunedau lleol ger eu siopau a'u parlyrau angladdau.

Chwilio am gyllid am prosiect i wella'ch amgylchedd?
Mae rownd gyfredol y Cynllun Treth Gwarediadau Tirlenwi ar agor ar gyfer ceisiadau tan 21 Gorffennaf 2019.

Grantiau Blynyddoedd Cynnar Sefydliad Elusennol y Seiri Rhyddion
Mae hyd at £80,000 ar gael i fudiadau sy'n helpu plant a phobl ifanc sydd dan anfantais i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hwynebu i sicrhau'r dechrau gorau posib mewn bywyd.

Grant Cyfalaf 2019-20 trais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol
Mae'r grant VAWDASV yn cefnogi prosiectau sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau statudol a gwirfoddol sydd wedi'u hanelu at gyflawni amcanion Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Newyddion gwirfoddoli

Wythnos o ddathlu gwirfoddoli ledled y Deyrnas Unedig
Ym mhob cwr o Gymru, bu cannoedd o fudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr yn dathlu Wythnos Gwirfoddolwyr, yr achlysur blynyddol i ddweud diolch i'r rheini sy'n rhoi o'u hamser yn rhad ac am ddim i gefnogi eu cymunedau lleol.

Beth yw buddion gwirfoddoli?

Darganfyddwch drwy wylio ein fideo mwyaf poblogaidd mis diwethaf. Dilynwch Ahmed a Mair ar eu taith i wirfoddoli a darganfyddwch pa gamau y gallwch eu cymryd er mwyn cymryd rhan.

Hyfforddiant a digwyddiadau

Mynediad i Bawb? Cynhadledd Cynghrair Henoed Cymru
Cynhelir Cynhadledd Flynyddol Cynghrair Henoed Cymru 2019 ar faterion yn ymwneud â mynediad.

16 Gorffennaf, Caerdydd

Polisi a prosiectau

Ymgynghoriadau'r wythnos hon
Sicrhau bod llais dinasyddion yn cael ei glywed ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.